

#CEDAW

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o
Wahaniaethu yn Erbyn Menywod Adroddiad Cysgodol
Mehafin 2018**

Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod Adroddiad Cysgodol Mehefin 2018

Cyflwyniad

Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (WEN) yn rhwydwaith aelodaeth o sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo hawliau menywod ym mhob agwedd ar fywyd Cymru.

Nid yw'r DU a Llywodraethau datganoledig wedi ymgorffori CEDAW yn uniongyrchol mewn polisi a chyfraith ddomestig. Fodd bynnag, rhoddir grym rhannol i nifer o hawliau CEDAW drwy Deddf Cydraddoldeb 2010 (EA 2010), y Ddeddf Hawliau Dynol (HRA) a deddf, polisïau a rhaglenni eraill. Mae Deddf Cymru 2017 wedi datganoli mwy o benderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fenywod/merched. Fodd bynnag, mae'r setliad cyfansoddiadol yn golygu bod arian ar gyfer materion datganoledig yn parhau i fod yn amodol ar reolaeth uniongyrchol gan San Steffan.¹ Fe wnaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gyflwyno'r nod llesiant o 'Gymru mwy cyfartal' i awdurdodau cyhoeddus a chyflwyno cyfle ffres i chwalu'r rhwystrau ar gyfer y 3.1m o bobl yng Nghymru, 52% ohonynt yn ferched. Fodd bynnag, nid yw wedi sicrhau mwy o gydraddoldeb eto.

Erthygl 2: Rhwymedigaethau i ddileu gwahaniaethu

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb rhwng y rhywiau wedi'u nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ac yn nyletswyddau penodol cydraddoldeb y sector cyhoeddus (DCSC), gan amlinellu set unigryw o ddyletswyddau penodol sy'n sail i'r ddyletswydd gyffredinol sy'n rhoi ysgogiadau a chyfleoedd i Lywodraeth Cymru fesur cynnydd a gosod targedau a chamau gweithredu effeithiol². Mae angen dychwelyd i Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) sy'n casglu, asesu ac yn datgrynhoi gwybodaeth ac ystadegau ar rywedd. Yn ogystal â hynny, mae angen deddfwriaeth gryfach sy'n cael ei fonitro am effaith a gweithrediad hefyd.

Cwestiynau:

Llywodraeth y DU

- A fydd Llywodraeth y DU yn ymgorffori holl ddarpariaethau CEDAW i gyfraith ddomestig³ i sicrhau'r hawliau sydd wedi'u hymgorffori yn CEDAW?
- A fydd Llywodraeth y DU yn defnyddio EIA i sy'n casglu, asesu ac yn datgrynhoi gwybodaeth ac ystadegau ar rywedd mewn perthynas â nodweddion gwarchoddedig eraill, gan gynnwys data penodol i Gymru?

¹Mae Deddf Cymru 2017 yn caniatáu datganoli rhai ardollau trethiant i Gymru.

² <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents>

³ Naill ai drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu ddeddfwriaeth newydd sy'n debyg i Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Llywodraeth Cymru (LIC)

- Sut fydd Adolygiad Cyflym Rhywedd a gynhaliwyd gan LC yn cydnabod croestoriad y gwahaniaethu yn erbyn menywod/merched yng Nghymru?
- Sut fydd LIC yn cydnabod ei bod hi'n fwy tebygol y bydd menywod yng Nghymru yn teimlo effeithiau Brexit yn fwy difrifol a sut y byddant yn lliniaru'n gymesur yn erbyn y rhai hynny fydd yn cael eu taro galetaf gan Brexit?

Erthygl 3: Sicrhau hawliau dynol a rhyddid sylfaenol

Mae Deddfau Llywodraeth Cymru yn egluro'r ymrwymiad i gydraddoldeb i bawb. Dylid ymgorffori'r egwyddorion a'r normau hyn i bolisiâu/strategaethau ledled Cymru. Mae cynnydd da yn hyn o beth. Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Pobl Hŷn sy'n canolbwyntio ar hawliau pobl hŷn/merched, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac Ymgynghorydd/Ymgynghorwyr Cenedlaethol ar roi diwedd ar drais yn erbyn Menywod. Fodd bynnag, mae pryder cynyddol yn y sector hawliau dynol a chydraddoldeb yng Nghymru bod ⁴amddiffyn hawliau wedi'i israddio ers dyfodiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG) (Cymru) 2015 o dan nod 'Cymru mwy cyfartal' y Ddeddf. Er bod y Ddeddf ei hun yn ddarn rhagorol o ddeddfwriaeth sy'n wynebu'r dyfodol cyfannol, nid oes mecanwaith atebolrwydd ystyrlon yn bodoli, gan nad oes gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol unrhyw bwerau gorfodi. Mae Llywodraeth Cymru yn annog cyd-gynhyrchu a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth iddo ail-ddylunio strategaeth. Fodd bynnag, yn aml nid yw'n cydnabod bod cyfranogiad yn cael ei lesteirio pan nad yw'n ad-dalu dinasyddion am gymryd rhan, er enghraifft, drwy beidio â darparu costau teithio. Mae'r pŵer i gyflwyno dyletswydd cymdeithasol-economaidd Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi'i ddatganoli i Weinidogion Cymru a gallai leddfu rhywfaint o'r ansicrwydd economaidd sy'n ymwneud â Brexit.⁵

Mae eiriolaeth annibynnol ar gyfer yr holl ferched/menywod sydd ei angen bellach wedi'i ymgorffori yn Rhan 10 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2004, ond, oherwydd mesurau cyni, nid yw'n cael ei ariannu mewn unrhyw ffordd drylwyr a chyson er mwyn sicrhau ei fod yn bodoli ar gyfer pob merch sydd ei angen. O ystyried natur sensitif y materion iechyd/cymdeithasol mae llawer o ferched yn eu profi, mae'n hanfodol bod y gwasanaethau hyn yn cael eu hariannu'n briodol, i roi llais i'r difreintiedig. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer menywod Duon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) sydd yn aml yn â phartner gwrywaidd gyda nhw i apwyntiadau ac yn teimlo nad ydynt yn gallu siarad am unrhyw gam-drin a allai fod yn digwydd.

Cwestiynau:

Llywodraeth y DU

- A fydd Llywodraeth y DU yn cynnal ei safonau amddiffyn hawliau dynol rhyngwladol trwy roi'r gorau i gynlluniau i greu Bil Hawliau i ddisodli Deddf Hawliau Dynol 1998?

Llywodraeth Cymru

⁴ <https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=en>

⁵ Ddeddf Cymru 2015, s. 45.

- Pryd fydd LIC yn creu Gweinidog i Ferched, gyda rôl benodol ac ecsgliwif i sicrhau a gwella hawliau a rhyddid menywod yng Nghymru (gyda phwerau gorfodi) ac yn sicrhau bod gan LIC ddealltwriaeth sy'n seiliedig ar rywedd o'r effaith y bydd yr holl benderfyniadau yn eu cael ar ferched yng Nghymru?
- A fydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010?

Erthygl 4: Mesurau arbennig dros dro

Yn y maes gwleidyddol yng Nghymru mae'r holl bleidiau gwleidyddol wedi cymryd agwedd wahanol - mae rhai'n gweithio'n gadarnhaol i sicrhau bod mwy o Aelodau Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) benywaidd - er enghraifft, mae'r Plaid Lafur yn creu rhestri byr benywaidd yn unig ac mae hyn wedi helpu wrth arwain at y 43% o ACau sy'n ferched ar hyn o bryd yng Nghymru. Yn etholiad Cynulliad Cymru 2016, roedd Plaid Cymru angen cydbwysedd rhwng y rhywiau ar gyfer y ddwy swydd uchaf ar ei rhestri cynulliad rhanbarthol.⁶ Nid yw'r Democratiaid Rhyddfrydol na'r Ceidwadwyr yw defnyddio unrhyw fath o gamau gweithredu cadarnhaol i sicrhau bod mwy o ymgeiswyr benywaidd. Argymhellwyd defnyddio cwotâu a mesurau eraill gan y Panel Arbenigol diweddar ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad yng Nghymru.⁷ Y tri argymhelliad ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau gan y Panel Arbenigol yw:

- Integreiddio cwotâu rhywedd i'r system etholiadol erbyn 20212 fel bod rhaid i'r holl bleidiau gwleidyddol enwebu ymgeiswyr 50/50.
- Rhannu swyddi: dylid newid y gyfraith etholiadol i alluogi ymgeiswyr i ymgeisio am etholiad yn seiliedig ar drefniadau rhannu swyddi clir
- Cyhoeddi gorfodol ar amrywiaeth ymgeiswyr - wedi'i ddatgrynhoi.⁸

Gallai mesur dros dro fod ar waith ar gyfer Etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2021 ac ar gyfer swyddi etholedig eraill.

Cwestiynau:

Llywodraeth y DU

- Sut fydd Llywodraeth y DU yn defnyddio mesurau dros dro o ran cwotâu rhywedd i gyflymu presenoldeb menywod mewn swyddi o awdurdod a grym mewn cyflogaeth, bywyd gwleidyddol (gan gynnwys yn Nhŷ'r Cyffredin) a bywyd cyhoeddus yn y DU?

Llywodraeth Cymru

⁶ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-27665486>

⁷ http://www.assembly.wales/en/abthome/about_us-commission_assembly_administration/panel-election-reform/Pages/Assembly-Electoral-Reform.aspx

⁸ http://www.assembly.wales/en/abthome/about_us-commission_assembly_administration/panel-election-reform/Pages/Assembly-Electoral-Reform.aspx

- A fydd LIC yn cymeradwyo argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad yng Nghymru, gan gynnwys cwotâu cyfreithiol i sicrhau bod cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn cynrychiolaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru?

Erthygl 5: Rolau yn seiliedig ar stereoteipiau

Ym mis Ionawr 2018, lansiodd Llywodraeth Cymru ei ymgyrch 'Dyma Fi'⁹ i herio stereoteipio ar sail rhywedd yn y gymdeithas, sy'n ffurfio rhan o'r ymgyrch Byw Heb Ofn sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Mae angen i'r ymgyrch ymwybyddiaeth cyhoeddus hwn ynghylch effaith stereoteipiau rhywedd niweidiol (gyda'r rhan fwyaf yn ymwneud â galwedigaethau/gweithgareddau) gael ei ymgorffori mewn ffyrdd a allai gefnogi pobl Cymru ar draws amrywiaeth o sectorau.

Mae'r diwydiant cyfryngau a hysbysebu yn chwarae rôl enfawr wrth fynd i'r afael â stereoteipiau neu fytholi stereoteipiau. Mae'r BBC wedi cydnabod hyn ac mae wedi rhoi targed yn ei le i gael cyflwynwyr benywaidd/gwrywaidd ar gyfradd 50:50 erbyn 2020 ac mae hyn i'w groesawu. Mae angen rhoi mwy o fentrau ar waith.

Cwestiynau:

Llywodraeth y DU

- A fydd Llywodraeth y DU yn gwneud rheoliadau'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) ynghylch bytholi stereoteipiau wrth farchnata cynhyrchion yn gyfreithiol rwymol.
- Pryd fydd Llywodraeth y DU yn darparu cyllid hirdymor, parhaus i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â stereoteipio ar sail rhyw ar draws y DU?
- A fydd Llywodraeth y DU yn datblygu ac yn cynnal hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob corff cyhoeddus heb eu datganoli ar rywiaeth, heterorywiaeth, stereoteipio ar sail rhyw a hiliaeth ar gyfer pob gweithiwr a darparu hyfforddiant gorfodol¹⁰?

Llywodraeth Cymru

- A fydd LIC yn datblygu ac yn cynnal hyfforddiant gorfodol ar rywiaeth, heterorywiaeth, stereoteipio ar sail rhywedd a hiliaeth ar gyfer ei holl weithwyr ac mewn ysgolion ledled Cymru?
- O ystyried ymgyrch diweddar LIC 'Dyma Fi', pryd fyddan nhw'n darparu cyllid hirdymor, parhaus i gynnal y gwaith hwn i'r dyfodol i fynd i'r afael â materion o stereoteipio ar sail rhywedd ledled Cymru?
- Sut fydd LIC yn sicrhau bod dull ysgol gyfan o ran anghydraddoldebau ar sail rhywedd, gan gynnwys stereoteipio ar sail rhywedd, yn cael ei roi ar waith yn y system addysg?

Erthygl 6: Masnachu pobl a phuteindra

⁹<http://livefearfree.gov.wales/campaigns/this-is-me?lang=en>

¹⁰Yn debyg i ymgyrch 'Gofyn a Gweithredu' Cymru, sydd yn orfodol ar draws cyrff cyhoeddus wedi'u datganoli a chodi ymwybyddiaeth o VAWG a llwybrau atgyfeirio at wasanaethau arbenigol.

Mae Cymru yn wlad tramwy ac yn gyrchfan ar gyfer masnachu pobl: yn 2017, cafodd 193 o bobl eu hatgyfeirio at y Mekanwaith Atyfeirio Cenedlaethol.¹¹ Sefydlwyd gweithio'n aml-asiantaethol ar fasnachu pobl yn 2007, ac mae'n cynnwys cydweithio rhwng y Cydlynnydd Gwrth-Fasnachu Pobl, creu logo penodol ar gyfer Cymru (Dewi), Grŵp Arweinyddiaeth Gwrth-Gaethwasiaeth Llywodraeth Cymru sy'n ceisio gwella cydweithio rhwng sefydliadau datganoledig a'r rhai nad ydynt wedi'u datganoli yng Nghymru, yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer goroeswyr.¹² Mae lansio hyfforddiant Wales Hotelier Modern Slavery, Cyflogaeth Moesegol mewn Cadwyni Cyflenwi - Cod Ymarfer¹³ a chynhadledd ddiweddar ar ffyrdd i frwydro yn erbyn caethwasiaeth fodern a masnachu pobl i'w croesawu. Fodd bynnag, mae ffordd bell i fynd. Er enghraifft, mae angen troi ar unwaith i amddiffyn cyfreithiol a chymdeithasol i ferched sy'n ddiodefwrwyr posibl.

Amlygodd ymchwil Oxfam Cymru yn 2011¹⁴ bod menywod sy'n ceisio lloches a menywod heb unrhyw fynediad at gronfeydd cyhoeddus yn agored i gamfanteisio rhywiol. Bellach mae tystiolaeth bod yr arferion camfanteisiol hyn yn cael eu prif ffrydio gyda chynnydd mewn digartrefedd, yn enwedig ymhlith menywod ifanc. Mae data Llywodraeth Cymru ei hun yn awgrymu bod cynnydd o 10% mewn cysgu ar y stryd yn 2018.¹⁵ Fodd bynnag, mae menywod yn fwy tebygol o brofi 'digartrefedd cudd' ac o ganlyniad maen nhw'n fwy anodd eu cyrraedd i gynnig cymorth, yn enwedig o ran materion o gamfanteisio a cham-drin.¹⁶ Hefyd, mae enghreifftiau sy'n achosi pryder o landlordiaid yn hysbysebu am ffafrau rhywiol - 'rhyw am rhent' - yn gyfnewid am lety yng Nghymru.¹⁷ Rydym yn croesawu ymrwymiad Gweinidog Cymru dros Dai ac Adfywio, Rebecca Evan i roi diwedd ar 'ryw am rhent' yng Nghymru drwy ddiwygio'r Cod Ymarfer ar gyfer landlordiaid a rydym yn galw am weithredu i sicrhau bod y Cod hwn yn cael ei orfodi ar lawr gwlad, fel bod gan ferched fynediad diogel a chyfartal at dai yng Nghymru.¹⁸

Cwestiynau:

Llywodraeth y DU

- Pryd fydd Llywodraeth y DU yn defnyddio dull cydgysylltiedig o ran hawliau dynol a chyfiawnder troseddol o ddelio â masnachu pobl nad yw'n rhoi gymaint o sylw ar reoli ffiniau?
- Beth mae Llywodraeth y Du yn ei wneud i fynd i'r afael â'r duedd ddiweddar o drefniadau 'rhyw am rhent' sy'n ecsbloetio menywod nad ydynt yn gallu sicrhau tai neu denantiaeth fel arall?

Llywodraeth Cymru

¹¹Ystadegau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, 2017

¹²<http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/anti-slavery/what-we-are-doing/?lang=en>

¹³<https://gov.wales/topics/improvingservices/bettervmf/code-of-practice/?lang=en>

¹⁴Ymdopi â ThlodiGoroesi a Strategaethau bywoliaeth ceiswyr lloches wedi'u gwrthod sy'n byw yn y DU, 2011, Polisi ac Arfer Oxfam.

¹⁵Cynnydd mewn Cysgwyr ar y Stryd yng Nghymru, cyfrifiadau diweddaraf, 2018, BBC.

¹⁶Digartrefedd Cudd Menywod, 2018, Dolen Digartrefedd.

¹⁷'Eisiau Tenant gyda Buddion' - 'Yr hysbyseb slebogaidd ar-lein yn dangos bod landlordiaid yn cynnig ystafelloedd i letywyr sy'n agored i niwed yn gyfnewid am ryw', 2017, Wales Online

¹⁸<https://www.24housing.co.uk/news/sex-for-rent-landlords-risk-licences-in-wales/> & <https://www.landlordtoday.co.uk/breaking-news/2018/5/welsh-government-to-clampdown-on-sex-for-rent-landlords?source=othernews>

- Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi menywod sy'n ymwneud â phuteindra yng Nghymru ac i helpu menywod sy'n dymuno gadael puteindra?
- Pryd fyddwn ni'n gweld y diwygiadau i'r Cod Ymarfer ar gyfer landlordiaid mewn perthynas â 'rhyw am rhent' yng Nghymru a sut fydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei fod yn cael ei orfodi ar lawr gwlad er mwyn galluogi menywod i gael mynediad diogel a chyfartal at dai?

Erthygl 7: Cynrychiolaeth o Ferched mewn Bywyd Gwleidyddol a Bywyd Cyhoeddus

Mae menywod yn ffurfio 52% o'r boblogaeth yng Nghymru, ac eto nid ydynt yn dal cyfran gyfartal o bŵer mewn bywyd Cymreig. Dim ond 18% o arweinwyr cyngorau Cymru sy'n fenywod ar hyn o bryd ac mae menywod yn cyfrif am 43% o Aelodau'r Cynulliad. Yng Nghymru, mae 6% o brif weithredwyr neu gyfatebol yn y 100 busnes uchaf yn fenywod.¹⁹ Mae menywod LGBT, anabl, dosbarth gweithiol a menywod Du a Lleiafrifoedd Ethnig yn wynebu rhwystrau ychwanegol o ran cael pŵer a chynrychioli eu hunain ym mywyd cyhoeddus a gwleidyddol Cymru. Mae pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig neu bobl anabl yn dal llai na 4% o benodiadau cyhoeddus,²⁰ er unwaith eto nad oes gennym y data i ddeall profiadau menywod duon a lleiafrifoedd ethnig a menywod anabl.

Mae cynyddu cyfranogiad ac arweinyddiaeth menywod yn cael effaith gadarnhaol ar wleidyddiaeth a busnesau. Fe wnaeth ymchwil gan McKinsey & Co. ganfod bod mwy o amrywiaeth o ran rhywedd ar uwch dîm rheoli yn y DU yn cyfateb i berfformiad gwell gyda chynnydd mewn perfformiad ariannol.²¹ Gyda chynrychiolaeth gyfartal i fenywod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd menywod mewn sefyllfa well i ddylanwadu ar yr agenda gwleidyddol i hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae ymchwil wedi canfod bod Aelod Cynulliad benywaidd yn llawer mwy tebygol o godi materion, gofyn cwestiynau ac ymyrryd ar gyflog cyfartal, cam-drin domestig, iechyd menywod a gofal plant.²²

Mae 64% o ferched ar draws y DU wedi dweud eu bod wedi profi aflonyddu rhywiol mewn manau cyhoeddus²³ ac mae 1 o bob 5 o bobl yn gweithio yn San Steffan wedi dioddef aflonyddu rhywiol.²⁴ Yn y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Cymru, mae'r polisi Urddas a Pharch, a ddylai fod wedi ei lunio ers amser maith, yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Fodd bynnag, aeth sgyrsiau am aflonyddu rhywiol yng ngwleidyddiaeth Cymru yn dawel iawn yn dilyn hunanladdiad Ysgrifennydd y Cabinet Carl Sergeant, ddyddiau wedi iddo golli ei swydd yn dilyn honiadau o aflonyddu.²⁵

Ar wahân i'r sectorau iechyd ac addysg, mae menywod yng Nghymru yn parhau i fod i raddau helaeth yn absennol o swyddi o bŵer ac wedi'u tangynrychioli ym meysydd gwneud penderfyniadau a dyrannu

¹⁹ Ibid.

²⁰ Ibid.

²¹ Diversity Matters, Hunt, Layton a Prince, McKinsey & Company, 2015

<https://www.mckinsey.com/~media/mckinsey/business%20functions/organization/our%20insights/why%20diversity%20matters/diversity%20matters.ashx>

²² Menywod a llunio polisi: Datganoli, Cymdeithas Sifil a Chynrychiolaeth Wleidyddol. Paul Chaney, 2016

²³ Arolwg barn YouGov/Rhoi Diwedd ar Drais yn Erbyn Menywod 2016. There is also serious tasn and gender harassment currently.

²⁴ <https://www.independent.co.uk/news/uk/politics/westminster-sexual-harassment-one-five-report-leaked-mps-lords-staff-a8199401.html>

²⁵ http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-43031781?intlink_from_url=http://www.bbc.co.uk/news/topics/cw5m7rq7z8rt/westminster-sexual-harassment-scandal&link_location=live-reporting-story

cyllideb. O ran penodiadau cyhoeddus, er bod 47% o benodiadau 2015-2016 yn ferched, mae gwahanu rhwng y rhywiau o hyd, er enghraifft, mae llai o ferched yn Aadeiryddion neu'n arwain Pwyllgorau Archwilio ac yn parhau i fod wedi'u tangynrychioli mewn cyrff datblygu economaidd a grwpiau ymgynghorol fel y Byrddau Dinas a Rhanbarth.²⁶

Cwestiynau:

Llywodraeth y DU

- Yn dilyn honiadau o gamdrin rhywiol ac aflonyddu yn erbyn gwleidyddion ledled y DU, ydy polisiâu aflonyddu rhywiol newydd yn bodloni safonau rhyngwladol i ddal y rhai sy'n cyflawni cam-driniaeth i gyfrif ac i roi diwedd ar yr ymddygiad hwn?

Llywodraeth Cymru

- Sut fydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu cynrychiolaeth menywod mewn rolau Prif Weithredwr, Cadeirydd ymddiriedolwyr a rolau llywodraeth leol yn sylweddol a heb oedi?
- A fydd LIC yn sicrhau bod y polisi 'Urddas a Pharch' i ddelio gydag aflonyddu rhywiol yn y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys:
 - cyfres glir o sancsiynau ar gyfer y rhai sy'n torri'r polisi
 - mecanweithiau i ganiatáu ymchwilio i gwynion sy'n dyddio'n ôl dros 12 mis
 - bod y rhai sy'n delio â'r cwynion yn meddu ar yr arbenigedd a'r profiad i ymdrin ag achosion o aflonyddu rhywiol
 - diogelu manylion adnabod yr achwynydd

Erthygl 8: Menywod fel Cynrychiolwyr Rhyngwladol

Yn syth ar ôl refferendwm yr UE, roedd nifer y troseddau casineb a gofnodwyd gan heddlu'r DU ym mis Gorffennaf 2016 41% yn uwch na'r flwyddyn ganlynol²⁷ ac amcangyfrifir bod troseddau casineb yn erbyn menywod Mwslimaidd wedi cynyddu o dros 300%.²⁸ Yng Nghymru cafwyd cynnydd o 76% mewn troseddau casineb hiliol yn ystod haf 2016.²⁹ Bydd gadael yr UE yn golygu bod menywod o Gymru yn cael llai o ddylanwad dros ddeddfwriaeth yr UE a llai o gyfleoedd i bwysu am fwy o gydraddoldeb rhwng y rhywiau. Gallai effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd hefyd olygu cam yn ôl o ran hawliau cyfreithiol i fenywod, llai o gyllid ar gyfer sefydliadau menywod ac y bydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau arbenigol.

Bydd peidio â bod yn llofnodwr Siarter yr UE ar Hawliau Sylfaenol yn creu³⁰ bylchau wrth amddiffyn hawliau dynol. Er enghraifft, mae'n cynnwys 'hawl i beidio dioddef gwahaniaethu, diogelu budd pennaf plentyn a'r hawl i urddas dynol.' Bydd hefyd yn golygu bod llai o bŵer i ddiogelu hawliau menywod.

²⁶ [Who Runs Wales? 2017](#), EHRC Wales.

²⁷ H. Corcoran & K. Smith, 'Trosedd Casineb, Cymru a Lloegr, Cymru, 2015/16' Y Swyddfa Gartref, 2016, https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/559319/hate-crime-1516-hosb1116.pdf, (cyrchwyd 7 Chwefror 2017)

²⁸ 'If 'Brexit means Brexit' what will that mean for women?', Women's Budget Group, [gwefan], 2016. <http://wbg.org.uk/analysis/brexit-meansbrexit-will-mean-women/>, (cyrchwyd 7 Chwefror 2017).

²⁹ Adroddwyd gan Gyngor Hil Cymru o ffigurau adrodd am droseddau casineb gan Cymorth i Ddiodefwrwyr Cymru

³⁰ <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:12012P/TXT>

Bydd colli diogelwch a chyflafareddiad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU) yn golygu diwedd i'n mesurau diogelu cyfredol i ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Bydd deddfwriaeth cydraddoldeb yr UE nad yw wedi'i gwblhau neu wedi'i ymgorffori i gyfraith y DU yn cael ei golli – er enghraifft mae'r UE ar hyn o bryd yn ystyried deddfwriaeth newydd sy'n diogelu absenoldeb rhiant, gweithio hyblyg a bwydo ar y fron yn y gwaith ymhellach. Bydd hefyd yn cyfyngu ar allu Cymru i aros ar flaen y gad o ran deddfwriaeth cydraddoldeb byd-eang a pholisi gan na fyddwn bellach yn cymryd rhan weithgar i helpu i lunio cyfraith cydraddoldeb yr UE ac yn cynnwys hyn yn awtomatig yng nghyfraith y DU.

Mae disgwyl i Gymru golli £680m o arian gan yr UE bob blwyddyn a bydd hyn yn cael effaith anghymesur ar ferched.³¹

Cwestiynau:

Llywodraeth y DU

- Sut mae Llywodraeth y DU yn ymdrin â throseddau casineb cynyddol ledled y DU yn dilyn refferendwm yr UE?
- Pryd fydd Llywodraeth y DU yn ymgorffori hawliau menywod, sy'n cael eu diogelu gan ddeddfwriaeth yr UE ar hyn o bryd, mewn cyfraith ddomestig i sicrhau na fydd unrhyw hawliau menywod neu hawliau dynol yn cael eu colli yn dilyn Brexit?

Llywodraeth Cymru

- Sut fydd LIC yn herio troseddau casineb a gwahaniaethu yn seiliedig ar genedligrwydd sy'n cael eu profi'n aml gan rai gwladolion yr UE a rhai o wledydd eraill?
- Sut fydd LIC yn sicrhau bod y berthynas gydag Ewrop yn cael ei chynnal yn dilyn Brexit a bod menywod yn meddu ar swyddi o ddylanwad yn y perthnasau rhyngwladol parhaus hyn?

Erthygl 9: Cenedligrwydd

Mae'r meini prawf ariannol a osodwyd ar gyplau sydd am fod gyda'i gilydd yn y DU yn gwahaniaethu yn erbyn menywod sydd yn wladolion y DU gyda phriod o dramor/y tu allan i'r UE. Ar hyn o bryd mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i breswylwyr y DU gael incwm blynyddol o tua £18,600 y flwyddyn i'w phriod ymuno â hi yn y wlad hon (Rheolau Mewnfudo). Mae'r swm hwn i fod i gynrychioli y swm y byddai ei angen i allu cefnogi eich priod heb iddo fod angen cymorth o'r pwrs cyhoeddus. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu am y ffaith bod enillion cyfartalog menywod yng Nghymru yn llai na gweddi y DU neu bod menywod yn llawer mwy tebygol o fod mewn swyddi cyflog isel/swyddi rhan amser na dynion.

Cwestiynau:

Llywodraeth Cymru

³¹ WEN Cymru et al, Cydraddoldeb i Fenywod a Merched yng Nghymru: Ein Maniffesto, 2018 <http://www.wenwales.org.uk/resources-2/wen-publications/>

- Sut fydd LIC yn cefnogi gwladolion yr UE sy'n byw yng Nghymru yn dilyn Brexit a'r rhai hynny gyda phartneriaid a phlant gyda hunaniaeth ddeuol ond nad yw'n genedligrwydd deul cyfreithiol o reidrwydd?

Erthygl 10: Addysg

Fe wnaeth Adolygiad Donaldson³² argymhell ad-drefnu mawr o ran addysg yng Nghymru sy'n rhoi cyfle gwirioneddol i wella'r cwricwlwm cyfredol. Bwriedir iddo roi addysg lawnach a mwy cyflawn i ddisgyblion, i gynnwys darpariaeth briodol a chyson ar gyfer pynciau gwleidyddol, personol, cymdeithasol, ac iechyd. Mae angen i'r holl ysgolion fabwysiadu dull addysg gyfan tuag at rhoi diwedd ar drais yn erbyn menywod, hawliau dynol ac addysg gwleidyddiaeth, gan gynnwys CEDAW a defnyddio canllawiau presennol, lle mae rhai eisoes ar gael.

Mae mynediad cyfartal i ferched at addysg yn cael ei fygwth gan 'dlodi misglwyf.' Mae Plan International wedi canfod bod 10% o ferched rhwng 14 a 21 mlwydd oed yn y DU wedi methu fforddio cynnyrch misglwyf ar ryw adeg, tra bod 1 ym mhob 7 yn ei chael hi'n anodd eu fforddio.³³ Mae 64% o ferched wedi colli addysg gorfforol neu chwaraeon oherwydd mislif, ac mae 52% o ferched wedi dweud celwydd neu greu esgus.³⁴ Mae gormod o ferched ar goll ysgol yn rheolaidd o ganlyniad i dlodi misglwyf. Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gronfa o £1m i helpu i 'y rhai mewn mwyaf o angen'.³⁵

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o'r 33 argymhelliad gan yr adroddiad annibynnol Menywod Talentog ar gyfer Cymru Lwyddiannus, sy'n galw am wella cydbwysedd rhwng y rhywiaw mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM), mewn polisiau addysgol a rhaglenni ar gyfer hyfforddi athrawon, diwygio cwricwlwm, cyngor gyrfaoedd, prentisiaethau ac ariannu addysg uwch ac addysg bellach.³⁶

O ran rhoi diwedd ar drais yn erbyn menywod a pherthnasoedd iach, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu Canllawiau Arfer Da Dull Addysg Gyfan³⁷ a Phecyn Cymorth Adnoddau. Fe wnaeth Prifysgol Cymru, NSPCC Cymru, Cymorth i Ferched Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru a Llywodraeth Cymru hefyd ddatblygu'r adnodd 'Agenda'.³⁸ Nod pob asiantaeth yw gweithio mewn ysgolion i gefnogi pobl ifanc ac ymarferwyr addysgol i ddysgu am a chodi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â pherthnasau iach fel rhan o ddull ysgol gyfan. Fodd bynnag, nid oes digon o arian i gyflwyno gweithdai ar draws Cymru. Yn 2017-18, cynhaliodd Estyn adolygiad thematig o addysg perthnasoedd iach mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a chynhyrchu adroddiad³⁹ gydag argymhellion. Sefydlwyd panel o

³² Ar gael yn: <https://www.nasuwt.org.uk/asset/A788604C-3046-4005-A1EA0EAF023E0DD/>
<https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/wcee/successful-futures.pdf>

³³ <https://plan-uk.org/media-centre/freeperiods-research-on-period-poverty-and-stigma>

³⁴ Ibid.

³⁵ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-43513354>

³⁶ <https://gov.wales/topics/science-and-technology/science/women-in-science/?skip=1&lang=en>

³⁷ <https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/151020-whole-education-approach-good-practice-guide-en.pdf>

³⁸ <http://agenda.wales/>

³⁹ <https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/A%20review%20of%20healthy%20relationships%20education.pdf>

arbenigwyr ar Rywioldeb ac Addysg Perthnasoedd (SRE) gan Lywodraeth Cymru, a darparodd y grŵp 11 o argymhellion⁴⁰ ar y cwricwlwm SRE yn y dyfodol yng Nghymru, gan gefnogi dull yn seiliedig ar hawliau ac ecwiti rhywedd. Rydym yn croesawu ymrwymiad diweddar LIC i'r holl argymhellion hyn, gan wneud SRE yn rhan statudol o'r cwricwlwm ar gyfer plant 5–16 mlwydd oed yng Nghymru gan gynnwys dealltwriaeth LGBTQI+ gwbl gynhwysol o rywioldeb.⁴¹

Rhaid gwneud mwy i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol ar ferched sy'n mynychu ysgolion yng Nghymru: mae rhwng 10-20% o ferched mewn ysgolion uwchradd yn dweud eu bod nhw wedi profi cyffwrdd, teimlo neu gusanu digroeso gan fachgen yn yr ysgol o leiaf unwaith. Mae adnoddau gwrth-fwlio - sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd - ac sy'n cynnwys bwlio rhywiaethol, rhywiol a thrawsffobig hefyd yn amlygu'r mater difrifol mewn ysgolion ac mae'r adnoddau hyn angen gwneud y cysylltiad rhwng VAWG a bwlio mewn perthynas â 'thrais' cyfoedion i gyfoedion.

Cwestiynau:

Llywodraeth Cymru

- Sut fydd LIC yn sicrhau bod dull cydgysylltiedig o fabwysiadu'r newidiadau y cytunwyd arnynt i SRE yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio a sut fydd LIC yn darparu arweiniad gref i adeiladu capasiti, creu buddsoddiadau ystyrion a chynllunio'n briodol ar gyfer y newidiadau arloesol hyn?
- Pryd fydd addysg hawliau dynol gorfodol sy'n cael ei ariannu'n ddigonol yn cael ei roi ar waith mewn ysgolion ac a all LIC ddysgu o waith Comisiynydd Plant Cymru ar 'ysgolion sy'n parchu hawliau' yn seiliedig ar yr UNCRC⁴²?
- Pryd fydd LIC yn derbyn yr argymhelliad gan y Panel Arbenigol Rhyw a Pherthnasau i sefydlu marc rhagoriaeth SRE i amlygu dulliau ysgol gyfan rhagorol o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau, ecwiti ac SRE⁴³, drwy weithio gydag Estyn er mwyn sicrhau bod yr holl sefydliadau addysgol yng Nghymru yn defnyddio dull addysgol cyfan i roi diwedd ar drais yn erbyn menywod a merched a defnyddio canllawiau ac adnoddau sydd ar gael?⁴⁴
- Sut fydd LIC yn sicrhau diogelwch menywod, drwy fonitro, a thrwy fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol mewn ysgolion yn well a hyfforddi athrawon ar sut i ymateb yn briodol a chyfeirio at yr holl fathau o VAWG?
- Pryd all y mentrau sy'n ymwneud ag addysg STEM droi'n llwybrau gyrfa sy'n talu'n well ar gyfer menywod/merched?

⁴⁰ <https://gov.wales/docs/dcells/publications/180104-future-of-the-sex-and-relationships-education-curriculum-in-wales-en.pdf>

⁴¹ <https://gov.wales/newsroom/educationandskills/2018/kirsty-williams-announces-focus-on-healthy-relationships-in-major-reforms-to-relationships-and-sexuality-education/?lang=en>

⁴² <https://www.childcomwales.org.uk/uncrc-childrens-rights/>

⁴³ <https://gov.wales/docs/dcells/publications/180104-future-of-the-sex-and-relationships-education-curriculum-in-wales-en.pdf>

⁴⁴ Er enghraifft, mae'r rhaglen Sbectrwm Cymru gan Hafan Cymru yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd ar gyfer Llywodraeth Cymru, er mai ychydig yn unig o gyllid mae'n ei dderbyn a'i fod yn cael ei gyflwyno'n lleol, nid yn genedlaethol, <http://www.hafancymru.co.uk/our-services/spectrum/>,

Erthygl 11: Cyflogaeth

Mae menywod yn dal i wynebu gwahaniaethu uniongyrchol yn y gweithle. Fe wnaeth ymchwil gan yr EHRC ganfod bod un o bob pump o famau wedi profi aflonyddu neu sylwadau negyddol sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd neu weithio hyblyg gan eu cyflogwr.⁴⁵ Canfu'r TUC bod 52% o fenywod wedi adrodd eu bod wedi dioddef aflonyddu rhywiol yn y gweithle yn 2016.⁴⁶

Mae menywod du a lleiafrifoedd ethnig yn wynebu rhwystrau niferus yn y gweithle, gan brofi gwahaniaethu'n aml ar bob cam o'r broses recriwtio.⁴⁷ Canfu'r Ymddiriedolaeth Runnymede bod menywod duon a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na'u cymheiriaid Gwyn, hyd yn oed pan fydd cymwysterau yn cael eu hystyried, gan wynebu rhwystrau iaith a stereoteipio ar sail rhywedd.⁴⁸ Mae menywod du a lleiafrifoedd ethnig yn cael llai o gynrychiolaeth ar draws prentisiaethau yng Nghymru.⁴⁹ Fe wnaeth ymchwil gan yr EHRC ganfod bod pobl anabl yn llai tebygol o gael eu cyflogi na phobl nad ydynt yn anabl ac y byddant ar gyflog is pan fyddant yn cael eu cyflogi.⁵⁰ Er gwaethaf cymwysterau, mae cyfraddau cyfranogiad menywod anabl mewn swyddi â sgiliau uchel yn llai na menywod nad ydynt yn anabl, ac maen nhw'n gweithio llai o oriau.⁵¹

Mae gwahanu galwedigaethol, gwaith rhan amser â chyflog isel, cyfrifoldeb menywod am ofal di-dâl a mwy o fenywod yn gweithio mewn sectorau cyflog isel, benywaidd yn cyfrannu at fwllch cyflog parhaus (15% ar hyn o bryd ar gyfer llawn amser a 22% rhwng menywod anabl a rhai nad ydynt yn anabl) rhwng y rhywiau a mwy o berygl o dloidi ar gyfer menywod. Y tâl cyfartalog yr awr i fenywod yng Nghymru yw £10.38 o'i gymharu â £12.19 ar gyfer dynion.⁵² Ar gyfer gweithwyr rhan-amser y tâl cyfartalog yr awr yw £8.80, o'i gymharu â £12.52 ar gyfer gweithwyr llawn amser.⁵³

Mae cyflogau isel yn gyffredin yn y sector gofal yng Nghymru gyda 56% ar gontractau dim oriau.⁵⁴ ⁵⁵ O ganlyniad, mae gweithwyr yn aml yn ennill swm hollol wahanol bob mis, gan ei gwneud yn anodd iddynt gyllidebu neu gael morgais. Mae effaith contractau dim oriau i'w deimlo hyd yn oed yn gryfach gan rieni unigol sy'n dibynnu ar ofal plant ffurfiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau i gyfyngu ar gontractau dim oriau yn y sector gofal cartref, ond dylai canlyniadau hyn gael eu monitro'n ofalus.

⁴⁵ Gwahaniaethu ac anfantais sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd a mamolaeth: Crynodeb o ganfyddiadau allweddol, EHRC 2018. <https://www.equalityhumanrights.com/en/managing-pregnancy-and-maternity-workplace/pregnancy-and-maternity-discrimination-research-findings>

⁴⁶ <https://www.tuc.org.uk/sites/default/files/SexualHarassmentreport2016.pdf>.

⁴⁷ [Anghydraddoldebau croestoriadol: Effaith llymder ar fenywod Du a lleiafrifoedd Ethnig yn y DU](#), Runnymede Trust a Women's Budget Group gyda RECLAIM a Coventry Women's Voices, 2017.

⁴⁸ [Mae'r amser i siarad drosodd, mae nawr yn amser gweithredu: Hil yn y gweithle](#), McGregor-Smith, 2017.

⁴⁹ Rhwystrau rhag Prentisiaethau: Anawsterau a brofwyd gan ddysgwyr o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r rhai ag anabledau wrth ddechrau rhaglenni prentisiaeth, Tachwedd 2014, Estyn.

⁵⁰ [Y bwlch cyflog anabled](#), Crynodeb Gweithredol, EHRC,

⁵¹ [Adroddiad Blynyddol Women Returns](#), Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar gyfer Menywod a Gwaith. 2016. 2016.

⁵² Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, 2017.

⁵³ Sefydliad Bevan / JRF *Prosperity without Poverty* 2016.

⁵⁴ Mae contractau dim oriau yn caniatáu i gyflogwyr gyflogi staff heb unrhyw sicrwydd o waith h.y. dim oriau ar gontract, er mwyn galluogi cyflogwyr i dalu eu gweithwyr dim ond pan fydd angen hynny, yn aml ar fyr rybudd gan leihau sefydlogrwydd cyflogaeth a rhai hawliau cyflogaeth (e.e. tâl salwch) yn sylweddol.

⁵⁵ Gofal Cymdeithasol Cymru, Mis Mawrth 2016.

Mae gwaith gofal di-dâl ar gyfer pobl anabl, pobl ddifrifol wael neu bobl hŷn yn cael ei wneud bennaf gan fenywod ac mae'n cyfateb i i £8.1 biliwn y flwyddyn yng Nghymru – wedi dyblu bron yn y 15 mlynedd diwethaf.⁵⁶ Mae menywod yn parhau i fod y prif ofalwr ar gyfer plant gyda 94% o Hawliadau Budd-daliadau Plant y DU yn cael eu talu i fenywod,⁵⁷ ac mae bron i hanner y mamau yng Nghymru yn dweud mai nhw'n unig sy'n gyfrifol am ofal eu plant, neu'n bennaf gyfrifol (o'i gymharu â 4% yn unig o dadau).⁵⁸

Mae niferoedd isel yn manteisio ar absenoldeb rhiant a rennir yn golygu mai dim ond 250 o ddynion wnaeth ddefnyddio hwn yng Nghymru yn 2016/17.⁵⁹ Nid yw'r hawl i ofyn am weithio hyblyg wedi newid ein diwylliannau gweithle eto⁶⁰ ac mae gallu dynion i fanteisio ar gymorth ar gyfer cyfrifoldebau gofal plant yn y gweithle yn gyfyngedig.⁶¹

Gall uchelgeisiau, cyflawniadau ac iechyd menywod gael eu cyfyngu gan ddiffyg gofal plant a gofal cymdeithasol hyblyg a fforddiadwy.⁶² Mae data diweddar yn brin, fodd bynnag, mae bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer plant anabl yn cynyddu yng Nghymru. Yn 2015, roedd gan 7% o awdurdodau lleol Cymru ddigon o ofal plant ar gyfer plant anabl, o'i gymharu â 18% yn 2014.⁶³

Roedd menywod rhwng 45 a 54 mlwydd oed dros ddwywaith yn fwy tebygol na gofalwyr eraill o fod wedi lleihau eu horiau gwaith oherwydd cyfrifoldebau gofalu.⁶⁴ Nid yw cynnig gofal plant Llywodraeth Cymru o 30 awr yr wythnos ar gyfer plant dros 3 mlwydd i rieni sy'n gweithio yn ymestyn i rieni hunangyflogedig neu rieni di-waith. Mae menywod yn cymryd cyfrifoldeb anghymesur am ofal plant di-dâl ac mae'r anghydraddoldeb hwn wedi'i nodi fel ffactor sy'n cyfrannu at y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.⁶⁵ Canfu adroddiad diweddar bod y gost feithrinfa cyfartalog ar gyfer plentyn o dan ddwy wedi codi 1.7% i £92 am 25 awr o ofal yr wythnos, er bod nifer o gyflogau wedi aros yr un fath.⁶⁶

Cwestiynau:

Llywodraeth y DU

- Sut fydd Llywodraeth y DU yn cynyddu faint o ddynion sydd yn manteisio ar absenoldeb rhiant?
- Wrth gydnabod y boblogaeth sy'n heneiddio yn y DU, a fydd Llywodraeth y DU yn deddfu i weithwyr gael 5-10 diwrnod o hawl absenoldeb gofalu â thâl y flwyddyn?

⁵⁶ Cyflwr Gofalu 2017 Gofalwyr Cymru, www.carerswales.org/stateofcaring

⁵⁷ Fawcett Society (2013) Benefits. <http://www.fawcettsociety.org.uk/2013/02/benefits/>

⁵⁸ Chwarae Teg (2013) A Woman's Place. <http://chwaraeteg.com/a-womans-place/>

⁵⁹ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-40265334>.

⁶⁰ Tadau a'r gweithle, Pwyllgor Cydraddoldebau a Menywod, Tŷ'r Cyffredin, 2018

⁶¹ Ibid.

⁶² Cyflwr Gofalu 2014, Carers Wales

⁶³ Mae gofalwyr benywaidd ifanc, yn enwedig y rhai sy'n darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl, yn llai tebygol o gymryd rhan mewn addysg bellach ac uwch na'r rhai hynny nad ydynt yn ofalwyr. ⁶²UCM (heb ddyddiad) Dysgu gyda gofal - profiad myfyrwyr sy'n ofalwyr yn y DU. Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr.

⁶⁴ Ymddiriedolaeth Teulu a Gofal Plant (2015) [Arolwg costau gofal plant 2015](#)

⁶⁵ Employers for Carers a Carers UK (2015) Gofalu ac arwahanrwydd yn y gweithle

⁶⁶ Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau, Ail adroddiad sesiwn 2015-16, Pwyllgor Cydraddoldeb a Menywod, Tŷ'r Cyffredin.

⁶⁶ <https://www.familyandchildcaretrust.org/file/3479/download?token=mnu16-9Y>

- Pryd fydd Llywodraeth y DU yn buddsoddi mewn gwaith gofal nad yw'n dibynnu ar waith gofal di-dâl menywod, gyda nifer ohonynt yn cael eu gorfodi allan o gyflogaeth gyfartal oherwydd gofal annigonol a ddarperir gan y Wladwriaeth?

Llywodraeth Cymru

- Sut fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw i bris gofal plant fel rhwystr i ferched ddychwelyd i'r gwaith, a sicrhau bod anghenion pobl hunan-gyflogedig, di-waith, rhieni sengl, a rhieni plant anabl yn cael eu bodloni?
- A fydd Llywodraeth Cymru yn lleihau eu cynnig gofal plant i ar gael o chwe mis?
- Pryd fydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymhellion ariannol i ddarparwyr gofal plant i gynnig darpariaeth ar gyfer plant anabl?
- Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi sylw i'r ffaith fod economi Cymru yn dibynnu'n drwm ar ofal sy'n cael ei ddarparu gan ferched ifanc, hen ac eiddil yn rhad ac am ddim?

Erthygl 12: Iechyd

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, bydd cynnydd yn y galw am ofal. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif y bydd 184,000 o bobl yng Nghymru yn 85 mlwydd oed neu drosodd erbyn 2036, cynnydd o 145% ers 2011.⁶⁷ Mae anghydraddoldeb amlwg mewn llawer o wahanol agweddau ar ofal iechyd yng Nghymru. Nid yw menywod anabl sy'n byw yng Nghymru yn cael mynediad cyfartal at ofal iechyd ac mae pobl anabl yn fwy tebygol o farw'n iau, profi anghydraddoldebau iechyd a phrofi cyflyrau iechyd difrifol, na phobl eraill.⁶⁸ Canfu Anabledd Cymru bod 42% o ddefnyddwyr iaith arwyddion Prydain sy'n fyddar yn dweud nad yw cyfathrebu yn eu hapwyntiadau'n ddigonol oherwydd nad oes ganddynt ddehonglwr.⁶⁹ Fe wnaeth Action on Hearing Loss ganfod bod 29% o bobl a arolygwyd wedi dweud bod rhaid iddynt ofyn i aelod o'r teulu, ffrind neu weithiwr cefnogi alw eu meddygfa ar eu rhan.⁷⁰ Nododd Pwyllgor y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl fod menywod a menywod anabl yn y DU yn wynebu nifer o rwystrau wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd rhywiol a gwasanaethau iechyd atgenhedlol, gyda diffyg gwybodaeth hygyrch.⁷¹

Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd gan Stonewall⁷² bod 41% o bobl trawsryweddol wedi dweud bod gan staff gofal iechyd ddiffyg dealltwriaeth o anghenion iechyd penodol unigolion trawsryweddol wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd cyffredinol yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i 51% o bobl drawsryweddol sy'n byw yng Nghymru. Yn ogystal â hynny, dywedodd 7% o bobl drawsryweddol eu bod wedi methu cael gofal oherwydd eu bod yn LGBT, wrth geisio defnyddio gwasanaethau gofal iechyd yn y flwyddyn ddiwethaf.⁷³ Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i

⁶⁷ Newyddion y BBC, 23 Awst 2016

⁶⁸ [Bod yn Anabl ym Mhrydain: Taith llai cyfartal](#), EHRC.

⁶⁹ [Gweithredu ar Golli Clyw Cymru](#).

⁷⁰ Ibid.

⁷¹ Sylwadau clo ar adroddiad cychwynnol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, Pwyllgor ar Hawliau Pobl ag Anableddau, 2017 ar gael yn http://www.disabilitywales.org/crpd_c_gbr_co_1_28817_e/

⁷² <https://www.stonewall.org.uk/sites/default/files/lgbt-in-britain-trans.pdf>

⁷³ <https://www.stonewall.org.uk/sites/default/files/lgbt-in-britain-trans.pdf>

ddarparu clinig gofal iechyd trawsrywiol cyntaf Cymru yng Nghaerdydd, a fydd yn cael ei gefnogi gan rwydwaith o Feddygon Teulu gyda diddordeb arbenigol mewn gofal rhwng y rhywiau.

Mae yna broblemau hefyd gyda gofal iechyd amenedigol. Er enghraifft, yn ôl Archwiliad Deilliannau Amenedigol Hywel Dda, yn hytrach na gwella canlyniadau, mae'n ymddangos bod canoli gwasanaethau wedi cael effaith andwyol ar gyfraddau amenedigol a marw-enedigaethau ar drigolion Sir Benfro a ledled Hywel Dda yn gyffredinol.⁷⁴

Canfu ymchwil WEN Cymru i'r menopos bod anghysondeb o ran gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i fenywod sy'n profi'r menopos.⁷⁵ Dywedodd bron i 27% o'r menywod a ymatebodd i arolwg y TUC ar y mater fod y menopos yn cael ei drin yn negyddol a dywedodd 56% bod y menopos yn cael ei drin fel jôc.⁷⁶ Hefyd, fe wnaeth WEN Cymru ganfod tystiolaeth anecdotaidd bod menywod a merched gydag endometriosis yn cael eu hanwybyddu ac nad yw eu hanghenion iechyd yn cael eu cydnabod gan weithwyr iechyd proffesiynol.⁷⁷

Cwestiynau:

Llywodraeth Cymru

- Sut fydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod menywod sy'n wynebu nifer o anghydraddoldebau yn gallu manteisio ar wasanaethau iechyd yn gyfartal, gan gynnwys menywod LGBT, merched a menywod anabl, a menywod sydd wedi colli eu clyw?
- Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynyddu'r gydnabyddiaeth o'r menopos a chyflyrau iechyd eraill megis endometriosis fel y gall cyflogwyr helpu menywod yn eu gweithluoedd?
- Sut fydd Llywodraeth Cymru yn gwella darpariaeth iechyd meddwl yng Nghymru fel bod gwasanaethau yn hygyrch i bawb, gan gynnwys goroeswyr trais a cham-drin, fel y gall rheini na allant fforddio gwasanaethau preifat dal i fanteisio ar gymorth sy'n newid bywyd heb effaith andwyol rhestrau aros hir?
- Sut fydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod menywod yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau a wneir ynghylch dylunio gwasanaethau gofal iechyd a dyrannu cyllid, fel bod anghenion iechyd menywod yn cael eu cydnabod, a bod cyflyrau meddygol heb lawer o ymchwil sy'n effeithio ar ferched yn cael eu deall yn well?

Erthygl 13: Bywyd economaidd a chymdeithasol

Rhwng 2010-15 roedd £26 biliwn o doriadau lles yn y DU, ac roedd gwerth £22 biliwn ar draul menywod.⁷⁸ Ar gyfartaledd, mae menywod yn dioddef colled flynyddol o £940 o ganlyniad, bron i

⁷⁴ <http://thhb.co.uk/2017/05/03/hospital-services-baby-deaths/>

⁷⁵ Galwad i weithredu ar y menopos, 2016 WEN Cymru

⁷⁶ Y Menopos, Problem yn y Gweithle, TUC, 2017

⁷⁷ Tystiolaeth wedi'i ddarparu gan Fair Treatment of Women in Wales i Ymgynghoriad CEDAW WEN Cymru, fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2018

⁷⁸ The Fawcett Society, *Where's the Benefit? An Independent Inquiry into Women and Jobseeker's Allowance* 2015

ddwbl colled dynion.⁷⁹ Rhagwelir y bydd mamau sengl, sydd yn cyfrif am 90% o'r holl rieni sengl, yn wynebu colled gyfartalog o £5250 y flwyddyn, tra bydd rhieni sengl anabl sydd ag o leiaf un plentyn anabl yn wynebu colli £10,000 y flwyddyn ar gyfartaledd.⁸⁰

Canfu Prifysgol Metropolitan Caerdydd y bu problemau gyda'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol, gan gynnwys hawlwr yn gorfod aros mwy na chwe wythnos tan cael eu taliad cyntaf a gorfod defnyddio banciau bwyd o ganlyniad uniongyrchol. Mae'r defnydd o fanciau bwyd wedi codi'n sylweddol ledled y DU, gan gynnwys Cymru. Ym mis Ebrill 2018 adroddodd Ymddiriedolaeth Trussell bod '98,350 o fagiau bwyd tri diwrnod wedi'u rhoi allan o fis Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018 – roedd 35,403 ohonynt i blant.' Daeth tua 29% o atgyfeiriadau oherwydd incwm isel neu hyd yr amser yr oedd teuluoedd yn gorfod aros am fudd-daliadau.

Cyflwynwyd y cap budd-daliadau i ddechrau fel gostyngiad yn yr elfen tai o fudd-daliadau hawlwr ac felly'n effeithio yn bennaf ar y rheini sy'n byw mewn ardaloedd â chostau tai uchel (e.e. Llundain). Fodd bynnag, mae Sefydliad Tai Siartredig yn amcangyfrif bod dros 12,000 o deuluoedd un i bedwar plentyn wedi'u heffeithio hyd yn oed lle mae'r tai rhataf (e.e. Cymru). Gan fod y budd-daliadau mae hawlwr yn eu derbyn yn cael eu capio ar yr un lefel waeth faint o blant sydd ganddynt, mae'r rhai sydd â theuluoedd mwy yn cael eu heffeithio'n anghymesur. Teuluoedd lleiafrifoedd ething a du, ac yn benodol, teuluoedd aelwyd sengl sydd wedi'u heffeithio galetaf.

Mae diwygiadau lles yn arwain at ganlyniadau enbyd i oroeswyr cam-drin rhywiol a domestig ac maen nhw'n rheoli hawliau atgenhedlol menywod ar incwm isel. Gydag un o bob pump o oedolion Prydain wedi profi cam-drin ariannol mewn perthynas bresennol neu yn y gorffennol⁸¹ bydd y newid i Gredyd Cynhwysol yn cael ei wneud fel taliad i un aelod o'r aelwyd yn cynyddu'r rheolaeth sydd gan y partner hwnnw dros y llall. Mae newidiadau i Gredydau Treth Plant wedi cyfyngu taliadau i ddau o blant gyda 'chymal trais' yn creu eithriad pan fydd mam yn gallu profi bod plentyn wedi'i genhedlu drwy drais. Mae newidiadau lles yn lleihau faint o arian sydd ar gael i fenyw i gefnogi ei theulu ar ei phen ei hun ac yn creu rhwystrau ychwanegol wrth adael perthynas.

Cwestiynau:

Llywodraeth y DU

- A fydd Llywodraeth y DU yn cael gwared ar y cyfyngiad dau blentyn ar gredyd treth plentyn a'r hyn a elwir yn 'gymal trais' ar unwaith, fel nad yw menywod yn gorfod datgelu cam-drin rhywiol a bod pob plentyn yn cael yr un cyfle i fyw heb dlodi?
- A fydd Llywodraeth y DU yn newid y ffordd y mae'n talu Credyd Cynhwysol i un cyfrif banc fesul teulu, sy'n gwneud rhai menywod yn fwy agored i gam-drin ariannol?

Llywodraeth Cymru

⁷⁹Y tlotaf yn cael eu taro galetaf gan ddiwygiadau i dreth, nawdd cymdeithasol a gwariant, 2017, Adroddiad Annibynnol EHRC

⁸⁰ Ibid.

⁸¹ *Money Matters*: Ymchwil i raddau a natur cam-drin ariannol yn y DU, Nicola Sharp-Jeffs <http://www.refuge.org.uk/files/Money-Matters.pdf>

- A fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) i leddfu rhywfaint ar effaith andwyol y mesurau llym?
- Sut fydd Llywodraeth Cymru yn lliniaru effeithiau andwyol Credyd Cynhwysol, sy'n effeithio ar fenywod yn anghymesur ac a fydd yn cael effaith ddinistriol ar draws Cymru?
- A fydd Llywodraeth Cymru yn llunio Cynllun Gweithredu i liniaru effaith diwygio lles ar ferched yng Nghymru?

Erthygl 14: Merched a Menywod Gwledig

Amlygodd Adroddiad y Sefydliad Polisi Cyhoeddus ar gyfer Cymru 2016⁸² nifer o agweddau ar dlodi gwledig gan gynnwys diffyg mynediad i wasanaethau a chludiant cyhoeddus drud ac afreolaidd. Hefyd, mae darpariaeth gofal iechyd wedi achosi problemau, gyda'r posibilrwydd o gau nifer o ysbytai, er enghraifft Ysbyty Withibush yn Sir Benfro. Mae natur wledig yn ei gwneud hi'n anodd i ferched fanteisio ar wasanaethau iechyd rhywiol yn gyfrinachol gan mai ychydig o gyfleoedd sydd i ferched/menywod deithio i ardaloedd eraill lle y gellir cynnig gwasanaethau o'r fath.

Mae argaeledd band eang yn fater heriol yng nghefn gwlad Cymru.⁸³ Mae angen buddsoddi mewn technoleg fforddiadwy fel y gall merched/menywod gymryd rhan yn nyluniad/cyflwyniad gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth fel mater o drefn ac yn hawdd.

Cwestiynau:

Llywodraeth Cymru

- Pryd fydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gan ferched a menywod gwledig lais cyfartal mewn gwneud penderfyniadau a gwasanaethau cyfartal?
- A fydd Llywodraeth Cymru yn gwella cysylltedd seilwaith, trafniadaeth a'r rhyngwrwyd i rannau gwledig o Gymru?

Erthygl 15: Cydraddoldeb gerbron y gyfraith

Mae mynediad at gyfiawnder yn hawl dynol ac mae'n hanfodol i hyrwyddo rheolaeth y gyfraith. Mae manteisio ar gyfiawnder hyd yn oed yn fwy anodd i fenywod/merched, oherwydd anghydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn cymdeithas ac yn y system gyfiawnder. Mae anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd parhaus rhwng menywod a dynion, tuedd ar sail rhyw a stereoteipiau rhywedd yn arwain at fynediad anghyfartal rhwng menywod a dynion o ran cyfiawnder.

Mae toriadau i wariant cyhoeddus dros y ddeng mlynedd diwethaf a symudiadau atchweliadol ar lefel Llywodraeth y DU o ran unioni'r fantol i fecanweithiau drwy gymorth cyfreithiol (Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwr, (LASPO) 2015) wedi effeithio'n sylweddol ar

⁸² <http://ppi.w.org.uk/files/2016/06/An-introduction-to-Rural-Poverty.pdf>

⁸³ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-42808272>

fenywod/merched (sy'n dueddol o fod ar incwm is). Mae angen brys i ail-edrych ar y ddarpariaeth a mynediad at gymorth cyfreithiol ar gyfer menywod, yn enwedig y rhai sydd ag anghenion lluosog.

Dangosodd ymchwil Cymorth i Ferched Cymru mai'r system cyfiawnder teuluol⁸⁴ oedd y gwasanaeth cyhoeddus a brofwyd fwyaf negyddol gan oroeswyr cam-drin domestig a rhywiol.⁸⁵ Mae diffyg mynediad at gymorth cyfreithiol wedi arwain at lawer o oroeswyr yn cael eu croesholi gan y troseddwr yn y llys, sydd wedyn yn defnyddio'r system cyfiawnder troseddol fel offeryn ar gyfer cam-drin parhaus. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi newidiadau i'r gofynion tystiolaeth er mwyn galluogi mwy o oroeswyr i gael mynediad at gymorth cyfreithiol.⁸⁶ Mae'n hanfodol bod holl oroeswyr cam-drin domestig a cham-drin rhywiol yn gallu cael mynediad i gyfiawnder a bod gwasanaethau VAWG arbenigol yn cael eu hariannu'n gynaliadwy i gefnogi goroeswyr.⁸⁷ Er bod y newidiadau hyn yn gadarnhaol, mae angen adolygiad o'r meini prawf cymorth cyfreithiol i sicrhau y gall pob menyw gael mynediad cyfartal i gymorth cyfreithiol ar draws systemau llys sifil a theuluol.

Cwestiynau:

Llywodraeth y DU

- Sut fydd Llywodraeth y DU yn sicrhau bod gan holl oroeswyr VAWG fynediad digonol at gymorth cyfreithiol a bod canllawiau newydd i Farnwyr yng Nghyfarwyddyd Arfer J12 yn cael eu rhoi ar waith yn llawn i gefnogi goroeswyr cam-drin domestig drwy'r Uchel Lys a'r Llys Teuluol?

Erthygl 16: Priodas a bywyd teuluol

Mae mynediad nifer o fenywod yng Nghymru at erthyliad yn cael ei ohirio'n artiffisial, gan bod rhaid iddynt weld dau Feddyg Teulu cyn y gallant gael erthyliad, ac mae nifer yn talu £600 i ddefnyddio gwasanaethau gynecolegol amserol drwy glinigau preifat. Gall oedi hefyd arwain at yr angen am erthyliad llawfeddygol oherwydd ei bod yn rhy hwyr ar gyfer erthyliad meddygol. Yng Nghymru, mae 77.8% o erthyliadau yn driniaethau meddygol yn hytrach na gweithdrefnau llawfeddygol. Ar hyn o bryd, nid yw menywod sy'n dewis cael erthyliad yn gallu cymryd y bilsen gartref - mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar hyn o bryd ar newid ei bolisi a byddai hyn yn cael ei groesawu. Mae mynediad i erthyliu angen buddsoddiad ariannol pellach ledled Cymru, fel y gall pob menyw gael cymorth rhagorol ac amserol.

Cwestiynau:

Llywodraeth y DU

- Yn dilyn Refferendwm Gweriniaeth Iwerddon, pryd fydd Llywodraeth y DU yn ymlacio hawliau erthyliu i fenywod yng Ngogledd Iwerddon?

Llywodraeth Cymru

⁸⁴ Roedd hyn yn cynnwys problemau o ran cymorth cyfreithiol, CAF/CASS, gweithwyr cymdeithasol, canolfannau cyswllt a llysoedd teulu.

⁸⁵ http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Are_you_listening_and_am_I_being_heard_FINAL_July_2016.pdf

⁸⁶ <http://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CDP-2017-0239/CDP-2017-0239.pdf>

⁸⁷ <https://www.womensaid.org.uk/womens-aid-responds-mojts-changes-legal-aid-rules-survivors-domestic-abuse/>

- Sut fydd Llywodraeth Cymru yn gwella gwasanaethau iechyd ar gyfer menywod yng Nghymru i gael mynediad at erthyliadau, gan fod yr oedi presennol yn gorfodi menywod i geisio gofal iechyd preifat neu gael erthyliadau llawfeddygol yn hytrach nag erthyliadau meddygol oherwydd y rhestr aros?
- O ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd GIG yn caniatáu i fenywod o Ogledd Iwerddon ddefnyddio gwasanaethau erthyly yng Nghymru, sut fyddant yn sicrhau na fyddant yn profi problemau tebyg o ran darpariaethau ac amseroedd aros ag y mae menywod yng Nghymru yn eu profi ar hyn o bryd?

Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG)

Mae Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (VAWDASV⁸⁸) yn darparu'r fframwaith ar gyfer dull strategol a chydgyssylltiedig i roi diwedd ar VAWG. Ers dod i rym dair blynedd yn ôl, mae'r gweithrediad wedi bod yn araf. Mae Strategaeth VAWDASV Cenedlaethol 2016-2021⁸⁹ wedi cael ei gyhoeddi, ond mae cynllun gweithredu ar gyfer y strategaeth yn parhau i fod 'ar y gweill'. Mae craffu ar y Ddeddf ar ôl y deddfu wedi codi pryderon am gyflymder a chysondeb ei weithrediad, a'r oedi o ran cynhyrchu cynllun gweithredu gyda chamau gweithredu ac amserlenni manwl.⁹⁰ Hefyd, mae angen cwmpasu'r holl droseddau fel sydd wedi'u datgan yng 'Nghonfensiwn Istanbul'⁹¹, gan gynnwys arteithio nad yw gan y wladwriaeth, stelcian a throseddau yn erbyn menywod mudol.

Mae menywod anabl yn fwy tebygol o brofi trais domestig, cam-drin emosiynol, a cham-drin rhywiol na menywod nad ydynt yn anabl.⁹² Mae diwygiadau lles negyddol yn cynyddu'r risgiau i fenywod o brofi cam-drin economaidd ac mae'r newid i dalu'r Credyd Cynhwysol i un cyfrif banc fesul aelwyd yn bryder mawr iawn.⁹³ Yn 2016-17, cefnogwyd 14,129 o oroeswyr cam-drin gan wasanaethau arbenigol yng Nghymru, gan gynnwys cefnogi 1,596 o fenywod, 1,221 o blant a phobl ifanc a 31 o ddynion mewn llochesi yng Nghymru.⁹⁴ Nodwyd 24% o oroeswyr a dderbyniwyd i lochesi fel menywod Duon a Lleiafrifoedd Ethnig a dywedodd 61% fod ganddynt broblem iechyd meddwl.⁹⁵

Mae'n hollbwysig bod drysau gwasanaethau cymorth hanfodol yn aros ar agor. Rhaid dyrannu cyllid tymor hir, cynaliadwy o ffrydiau ariannu llywodraeth genedlaethol a lleol. Mae yna risg sylweddol i

⁸⁸Yn unol â deddfwriaeth Cymru, defnyddir trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a cham-drin rhywiol, a'r acronym VAWDASV, i gwmpasu'r holl fathau o drais yn erbyn menywod.

⁸⁹ <https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-en.pdf>

⁹⁰[Craffu ar ôl deddfu gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau 2016](#) Ydy Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gweithio?

⁹¹ <https://www.coe.int/en/web/istanbul-convention/text-of-the-convention>

⁹² Cymorth i Ferched Cymru, Anabledd Cymru a Phrifysgol Morgannwg, 'Cam-drin Domestig Merched Anabl yng Nghymru', 2011

⁹³ <https://www.ft.com/content/aaaaf2fa-4c63-11e8-8a8e-22951a2d8493>

⁹⁴ Adroddiad Cyflwr y Sector Cymorth i Ferched Cymru 2017

<http://www.welshwomensaid.org.uk/2017/12/welsh-womens-aid-state-sector-report-2017/>

⁹⁵ Adroddiad Cyflwr y Sector Cymorth i Ferched Cymru 2017

<http://www.welshwomensaid.org.uk/2017/12/welsh-womens-aid-state-sector-report-2017/>

gynaliadwyedd gwasanaethau trais rhywiol, llochesi a gwasanaethau arbenigol ar gyfer menywod duon a lleiafrifoedd ethnig a phlant.⁹⁶

Yn ôl Adroddiad VAWG Gwasanaeth Erlyn y Goron 2016-17⁹⁷ mae troseddau VAWG ar hyn o bryd yn cyfrif am bron i 20% o gyfanswm llwyth achosion y Gwasanaeth Erlyn Troseddau ac mae mwy na 80% o'r troseddau hynny'n ymwneud â cham-drin domestig.⁹⁸ Yn 2016-17, erlynwyd 7,631 o droseddau VAWG yng Nghymru gyda chyfradd dedfrydu o 75.6%.⁹⁹

Agorodd Clinig FGM cyntaf Cymru yng Nghaerdydd ym mis Mai 2018, gan gynnig cefnogaeth i fenywod/merched a effeithir gan FGM. Fe wnaeth ymgyrchoedd gwyliau ysgol ar FGM mewn meysydd awyr yng Nghymru helpu i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth arbenigol sydd ar gael i ferched sy'n cael eu cludo allan o'r wlad at ddibenion FGM.

Fe wnaeth Adroddiad Cyflwr y Sector gan Cymorth i Ferched Cymru 2017¹⁰⁰ amlygu ansicrwydd sylweddol o ran ariannu ar gyfer gwasanaethau arbenigol yng Nghymru wrth i'r sector geisio cynnal cyllid blwyddyn ar flwyddyn, gan wynebu 'loteri cod post' yn dibynnu ar p'un a yw comisiynwyr lleol yn eu blaenoriaethu, tra'n parhau i deimlo effaith toriadau cronol i gyllid. Y Rhaglen Cefnogi Pobl yw'r cyfrannwr mwyaf o bell ffordd i wasanaethau arbenigol VAWDASV¹⁰¹ yn y trydydd sector yng Nghymru, ac mae gostyngiad bach yn y cyllid hwn hyd yn oed yn cynrychioli risg i wasanaethau, ac eto mae'n peri llawer o bryder bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yn gryf i gael gwared ar y terfyn neilltuo sydd o amgylch y cyllid yn llwyr. Mae gwasanaethau arbenigol ar gyfer menywod duon a lleiafrifoedd ethnig yn wynebu toriadau cyllid difrifol a dyfodol ansicr, ac mae Bawso, prif ddarparwr gwasanaethau ar gyfer mathau penodol o drais, yn pwysleisio'r angen am gysondeb ariannu ar gyfer yr holl fathau o drais.

Yn 2016/17 ni lwyddwyd i roi llety i 500 o oroeswyr cam-drin domestig oherwydd diffyg adnoddau a chapasiti.¹⁰² Mae asesiadau o anghenion rhanbarthol yn aml yn methu â nodi anghenion menywod duon a lleiafrifoedd ethnig¹⁰³ sy'n golygu nad yw gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan ac ar gyfer menywod duon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu comisiynu'n briodol ar lefel leol.

Mae'n siomedig bod swm anghymesur o fach o'r Gronfa Dreth Tampon wedi dod i Gymru ac na ddyfarnwyd unrhyw gynigion arweiniol gan sefydliadau menywod yng Nghymru yn 2018.¹⁰⁴ Rhoddwyd cyfran uchel o'r gronfa i sefydliadau nad ydynt yn cael eu harwain gan fenywod neu'n darparu'n

⁹⁶ Adroddiad Cyflwr y Sector 2017, Cymorth i Ferched

Cymru <http://www.welshwomensaid.org.uk/2017/12/welsh-womens-aid-state-sector-report-2017/>

⁹⁷ https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/cps-vawg-report-2017_1.pdf

⁹⁸ Roedd 83.4% yn ymwneud â cham-drin domestig, roedd 4.6% am droseddau treisio a 12.0% am droseddau rhywiol (ac eithrio treisio).

⁹⁹ Roedd 83.4% yn ymwneud â cham-drin domestig, roedd 4.6% am droseddau treisio a 12.0% am droseddau rhywiol (ac eithrio treisio).

¹⁰⁰ <http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2017/12/WWA-State-of-the-Sector-2017-ENG.pdf>

¹⁰¹ Adroddiad Cyflwr y Sector 2017, Cymorth i Ferched

Cymru <http://www.welshwomensaid.org.uk/2017/12/welsh-womens-aid-state-sector-report-2017/>

¹⁰² Adroddiad Cyflwr y Sector 2017, Cymorth i Ferched

Cymru <http://www.welshwomensaid.org.uk/2017/12/welsh-womens-aid-state-sector-report-2017/>

¹⁰³ Adroddiad Cyflwr y Sector 2017, Cymorth i Ferched

Cymru <http://www.welshwomensaid.org.uk/2017/12/welsh-womens-aid-state-sector-report-2017/>

¹⁰⁴ <https://www.gov.uk/government/news/charities-across-the-uk-benefit-from-tampon-tax-fund>

bennaf i fenywod ac mae nifer o'r rhai a ariennir eleni sydd o dan 'Cymru a Lloegr' nad oes ganddynt berthynas neu bartneriaid yng Nghymru i ddarparu hyn.¹⁰⁵ Ni ddylai'r 'Treth Tampon' fodoli, tra nad yw 'hanfodion' fel llafnau rasel dynion wedi'u trethu, ac yn sicr ni ddylid defnyddio'r gronfa hon i gyfyngu ar hawliau dynol menywod drwy gefnogi gwaith gwrth-erthylu'r elusen Life yn Lloegr - a dderbyniodd £250,000 yn 2017.¹⁰⁶

Cwestiynau:

Llywodraeth y DU

- Pryd fydd Llywodraeth y DU yn cadarnhau'r 'Confensiwn Istanbul'?

Llywodraeth Cymru

- A fydd Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i neilltuo grantiau Cefnogi Pobl a grantiau digartrefedd ac i arian cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau VAWG, yn unol â Strategaeth VAWDASV Genedlaethol 2016-2021?
- Sut fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ymrwymadau Strategaeth VAWDASV Genedlaethol 2016-2021 yn llwyddiannus, ar draws yr holl adrannau, gan gynnwys cyflwyno rhwymedigaethau gwladwriaeth 'Confensiwn Istanbul' sydd yn berthnasol i Gymru?
- A fydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu Confensiwn Istanbul i ddarparu safonau cydnabyddedig rhyngwladol ar gyfer ymateb i VAWG a chael gwared ar VAWG, i wneud Cymru "y man mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw"¹⁰⁷?

¹⁰⁵ <https://www.gov.uk/government/news/women-and-girls-set-to-benefit-from-15-million-tampon-tax-fund>

¹⁰⁶ <https://www.theguardian.com/politics/2017/oct/28/anti-abortion-life-charity-will-get--tampon-tax-funds/>
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/604984/Tampon_Tax_Fund_regional_list.docx

¹⁰⁷Cyhoeddwyd y dyheadau i wneud Cymru y 'man mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw' gan Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched

^{2018.} <http://www.BBC.com/news/uk-wales-politics-43335203>

ATODIAD

Cydlynu NGO:

Mae [Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru \(WEN\)](#) yn rhwydwaith aelodaeth o sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo hawliau menywod ym mhob agwedd ar fywyd Cymru. Mae'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru yn anelu at greu cymdeithas decach lle gall menywod fyw heb rywiaeth a gwasanaethu ar sail rhyw a mwynhau cydraddoldeb ym mhob agwedd ar eu bywydau bob dydd.

Gyda chymorth:

Sefydlwyd [Cynulliad Menywod Cymru \(WAW\)](#) yn 1984 i ddarparu tystiolaeth o Gymru ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau oedd yn nodi diwedd i Ddegawd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer menywod (1975-1985). Mae WAW wedi ymrwymo i [Blatfform Byd-eang ar gyfer Gweithredu y Cenhedloedd Unedig](#) y cytunwyd arno gan lywodraethau yn Beijing, ac sy'n seiliedig ar yr angen am Gydraddoldeb, Datblygiad a Heddwch. Amcanion WAW yw hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer menywod Cymru a hybu cydraddoldeb.

Cyllid:

Ariannwyd y gwaith hwn gan Sefydliad Baring a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, un o Sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol y DU. Datblygwyd yr adroddiad hwn yn annibynnol, ac felly nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Comisiwn na'r Sefydliad Baring.

Cymeradwywyd yr adroddiad hwn gan y sefydliadau canlynol:

- *Bawso*
- *Chwarae Teg*
- *Anabledd Cymru*
- *Yr Athro Jackie Jones, Prifysgol Gorllewin Lloegr*
- *Llamau*
- *Oxfam Cymru*
- *Yr Athro Emma Renold, Prifysgol Caerdydd*
- *Stonewall Cymru*
- *Cynulliad Merched Cymru*
- *Cymorth i Ferched Cymru*

Cydnabyddiaethau:

Llawer o ddiolch i awdur ac ymchwilydd yr adroddiad hwn, yr Athro Jackie Jones, Prifysgol Gorllewin Lloegr.

Diolch hefyd i'r menywod a'r merched unigol a fynychodd ddigwyddiadau ymgynghori a sôn am eu profiadau ac ateb yr e-ymgyngoriad.